Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**22 Ionawr 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol ac Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys
Nid yw Rheoliadau 2019 yn diwygio unrhyw offerynnau Ewropeaidd sy'n uniongyrchol gymwys.

Yn lle hynny, mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hynny yn darparu ar gyfer pwerau i ddiwygio Atodiadau 1A a 3 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1251/2008 sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 3/88/EC mewn perthynas ag amodau a gofynion ardystio ar gyfer rhoi ar y farchnad a mewnforio i'r Gymuned anifeiliaid dyframaeth a'u cynhyrchion, ac sy'n pennu rhestr o rywogaethau sy'n fectorau. Mae'r pŵer i ddiwygio Atodiad 1A yn arferadwy pan fo'r diwygiad yn angenrheidiol neu'n briodol yng ngoleuni meini prawf penodedig penodol ac unrhyw asesiad a gynhelir sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw clefyd yn glefyd egsotig ai peidio at ddiben yr Atodiad hwnnw (a rhaid i unrhyw asesiad y dibynnir arno at y diben hwnnw fod wedi cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig). Mae'r pŵer i ddiwygio Atodiad 3 yn arferadwy pan fo'r diwygiad yn angenrheidiol neu'n briodol yng ngoleuni asesiad o'r risgiau i iechyd anifeiliaid dyfrol yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â chyflwyno anifeiliaid neu gynhyrchion dyframaeth a fegir neu a gynhyrchir mewn trydedd wlad (h.y. gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig), gan ystyried ffactorau penodedig penodol. Mae'r pwerau o dan sylw yn cael eu rhoi yn gydredol, felly maent yn arferadwy gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol (ond rhaid iddo ef gael caniatâd Gweinidogion Cymru i arfer y pwerau hynny).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hynny yn darparu pŵer i ddiwygio Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ymadael â'r UE) 2019. Ymdriniwyd â hwy mewn datganiad hysbysu blaenorol. Mae Rhan 3 yn rhoi'r gallu i wneud, drwy gyfrwng Rheoliadau, y diwygiadau a ganlyn i Reoliadau Iechyd

Planhigion (Ymadael â’r UE) 2019@ diwygiadau i Atodlenni 1 − 7 (plâu planhigion a deunydd planhigion a reoleiddir) yng ngoleuni datblygiadau mewn gwybodaeth wyddonol neu dechnegol neu lle gellir eu cyfiawnhau'n dechnegol neu lle bônt yn gyson â'r risg i iechyd planhigion; diwygiadau i Atodlen 8 (rhanddirymiadau rhag gwaharddiadau a gofynion penodol) ar ôl i asesiad ystyried yr wybodaeth wyddonol a thechnegol sydd ar gael a chadarnhau y byddai'r diwygiadau'n dileu'r risg i iechyd planhigion neu'n diogelu rhagddi; diwygiadau i gydnabod pan fo trydydd gwledydd yn dangos bod ganddynt fesurau ffytoiechydol mewn perthynas â phlâu planhigion neu ddeunydd perthnasol sy'n gyfwerth â mesurau ffytoiechydol domestig, a diwygiadau er mwyn gwneud darpariaeth frys dros dro er mwyn atal pla planhigion rhag cael ei gyflwyno.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Gallai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, y gallai hynny gyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau
Mae Rheoliadau 2019 yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau yn y DU sy'n gyfwerth ag amryfal swyddogaethau deddfwriaethol sy'n arferadwy gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE ar iechyd anifeiliaid dyfrol ac iechyd planhigion ac maent yn trosi gweithdrefnau'r UE yn weithdrefnau priodol y DU fel sy'n briodol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/AcjQdNDh

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE.